# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 30/01/2023 7:00yh – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| John Brinley Jones (Cad) | Thomas Victor Jones | David Andrew Parry | William Roger Jones |
| Gwenllian Davenport Hughes | Alan Harper-Smith | Greta Hughes | Ann L. Williams (Cyfieithydd) |
| Pat Humphreys (Clerc) | | | |

Gofynnodd y cadeirydd i bawb sydd eisiau cyfrannu yna iddynt roi eu llaw i fyny a pan fydd angen pleidleisio i bawb wneud drwy ddangos llaw.

1. **Ymddiheuriadau**
   Ian Goronwy Williams, Alaw Ceris a Patricia Hope-Whitney.

2. **<u>Datgan Buddiant Ariannol neu Personol</u>**
   Dim.

3. **Cofnodion Pwyllgor 28/11/2022**
   Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.
   Cynnig: Gwenllian Davenport Hughes            Eilio: Thomas Victor Jones

   <u>Materion yn codi o'r cofnodion:</u>
   1. Bedd Mr & Mrs Smyth – Mae'r clerc wedi derbyn pris gan Hefin Underwood i drwsio'r garreg fedd sef dim mwy na £300.00.
      Penderfyniad: derbyn y pris a mynd ymlaen i drwsior garreg fedd.
      Cynnig: William Roger Jones        Eilio: Gwenllian Davenport Hughes
   2. Cyfarfod hefo Lily Usher Ymddiriedolaeth Genedlaethol – Mae'r clerc wedi cysylltu hefo Lily Usher ac wedi cytuno i drefnu cyfarfod yn gynnar mis Mawrth.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   <u>Pont Llecyn Mwyniant</u>
   Mae'r cadeirydd wedi sylwi fod y railings un ochor i'r bont wedi torri ac felly angen eu trwsio. Dywedodd Greta Hughes y bydd rhaid gwneud yn siwr eu bod yn cael eu galfaneiddio gan eu bod mor agos at y môr a dywedodd Thomas Victor Jones mai rhai crwn sydd angen y tro yma ac nid sgwar.  Mae'r cadeirydd am anfon manylion contractwr i'r clerc iddi gysylltu hefo fo i ofyn am bris.

5. **Llifogydd ar yr A499**
   Yn dilyn y llifogydd diweddar cafwyd cais gan y Cynghorydd Angela Russell i ymuno i drafod y mater ac fe wnaeth y cadeirydd ei chroesawu i'r cyfarfod. Eglurodd y clerc wrthi fod llythyr wedi cael ei anfon gan y Cyngor Cymuned flwyddyn yn ôl i: Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd a Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae ymateb wedi ei dderbyn ganddynt, cafodd y llythyr yma ei arwyddo gan ddeg Cyngor Cymuned a Thref ym Mhen Llŷn. 'Rydym hefyd yn derbyn cylchlythyr gan Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â 'Rheoli Llifogydd ym Mhwllheli'.

Mae'r Cynghorydd wedi derbyn nifer fawr o gwynion am y llifogydd yn ddiweddar ac felly yn gofyn i'r Cyngor Cymuned yrru llythyr arall i Cyfoeth Naturiol Cymru yn cwyno eto am y llifogydd a'r ffaith nad oes dim yn cael ei wneud ynglŷn â'r mater ac mae Greta Hughes yn cynnig i'r clerc gysylltu hefo Cynghorau Cymuned a Thref Pen Llŷn yn gofyn iddyn nhw hefyd yrru llythyr o gwyn ond ar wahan y tro yma gan obeithio y bydd hynny yn cael mwy o effaith. Pasiwyd i'r clerc gario allan y ceisiadau uchod.
Cyn i'r Cynghorydd adael y cyfarfod rhoddodd ddiweddariad ynglŷn â'r potiau blodau, maent dal yn ei meddiant gan fod y tywydd wedi bod yn sal ofnadwy ond pan ddaw tywydd gwell fe fydd yn cysylltu i drefnu eu gosod a dechrau plannu blodau ynddynt.
Gofynodd y cadeirydd iddi os oedd diweddariad ar y cais Penrhos ond nid oes dim, mae hi'n disgwyl cael cyfarfod safle ond nid oes dim wedi ei drefnu eto.
Gofynnodd Thomas Victor Jones i dynnu sylw Cyngor Gwynedd at y dŵr sydd yn hel ar y chwith o gyfeiriad Llanbedrog yn lle mae'r llifogydd yn cychwyn, mae'r dŵr yma yn hel pan nad oes llifogydd ac yn gallu bod yn beryglus iawn i geir oherwydd nad oes rhybudd ei fod yna.
Dywedodd y cadeirydd bod bollardau wedi cael eu gosod rhai blynyddoedd yn ôl gan Cyngor Gwynedd ar y ddwy ochor er mwyn dangos ochrau'r ffyrdd pan mae llifogydd ond erbyn hyn mae'r rhai sydd ar y chwith wrth fynd am Bwllheli wedi diflannu ac felly angen dweud wrth Cyngor Gwynedd i osod rhai newydd yn eu lle. Mae Greta Hughes yn cytuno hefo'r cadeirydd bod angen ail osod y bollardau gan fod cerbyd wedi mynd drosodd i'r llifogydd yn y fan yma yn ddiweddar. Pasiwyd i'r clerc gysylltu hefo Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r mater.

**6. Newid dyddiad cyfarfod mis Mai – Gŵyl y Banc**

Gan fod cyfarfod mis Mai yn disgyn ar Gŵyl y Banc penderfynwyd i symud y cyfarfod i'r noson ganlynol sef nos Fawrth y 30ain o Fai 2023.

**7. Ebost Cyngor Tref Pwllheli ynglŷn â'r Ambiwlans Awyr**

Derbyniwyd ebost gan Cyngor Tref Pwllheli yn gofyn am gefnogaeth i wrthwynebu'r bwriad o symud y gwasanaeth Ambiwlans Awyr o Gaernarfon i Rhuddlan.
Penderfynwyd i gefnogi Cyngor Tref Pwllheli a gwrthwynebu'r bwriad yn llwyr a'r clerc i gyfleu hynny mewn llythyr.

**8. Newidiadau arfaethedig i derfynau cyflymder**

Cafwyd ebost gan Cyngor Gwynedd ynglŷn â newid i derfynau cyflymder yn yr ardal sy'n golygu y bydd terfynau cyflymder 30mya presennol yn newid i 20mya yn y mwyafrif o safleoedd. Fe fydd ymgynghoriad hefo'r cyhoedd yn cychwyn yn y gwanwyn ond maent yn awyddus i gael barn Cynghorau Cymuned a Thref yn gyntaf.
Mae'r cadeirydd yn cytuno hefo ei newid o flaen yr ysgol a llefydd priodol eraill ond yn erbyn newid y terfyn cyflymder 30mya i gyd i 20mya ac mae Alan Harper-Smith yn cytuno ac yn meddwl y dylai'r 20mya gario ymlaen i fyny drwy'r pentref hyd at gyffordd Lôn Pin gan fod ceir yn parcio ar hyd y ffordd yma. Mae David Andrew Parry yn cytuno 100% hefo yr hyn sydd yn cael ei gynnig ac mae Gwenllian Davenport Hughes yn cytuno hefo fo. Mae Greta Hughes yn teimlo ei bod yn berygl iawn ceisio croesi drosodd mewn car wrth ymyl Glyn y Weddw

yng nghanol y pentref gan fod ceir yn dod o dri cyfeiriad ac hefyd wrth ymyl trwy'r nant i'r gweithdy ar droed ond mae hi'n cytuno hefo'r cadeirydd nad oes ei angen ymhob man. Mae David Andrew Parry yn cynnig fod y Cyngor Cymuned sy'n gyfrifol am Iechyd a Diogelwch trigolion y pentref yn cefnogi'r bwriad yma 100% ac mae Gwenllian Davenport Hughes yn eilio'r cynnig ac mae Thomas Victor Jones yn cytuno. Cafwyd pleidlais ar y mater. Mae 3 o blaid cynnig David Andrew Parry ac mae 4 yn erbyn y cynnig felly gofynwyd i'r clerc ymateb yn dweud fod y Cyngor Cymuned yn cytuno hefo newid y terfyn cyflymder o flaen yr ysgol ac i fyny drwy'r pentref i 20mya ond yn erbyn newid y terfyn cyflymder i gyd.

**9. Ebost Cronfa Covid-19**

Derbyniwyd ebost gan Ty Doctor Nefyn yn dweud fod rhan sylweddol o'r arian a gyfrannwyd tuat at yr apêl covid ar ddechrau'r pandemig heb ei wario ac yn gofyn os yw'r Cyngor Cymuned eisiau'r arian yn ôl (canran pro rata ohono) neu yn fodlon iddyn nhw eu wario mewn ffordd a fyddai er lles y gymuned? Pasiwyd i ofyn am yr arian yn ôl.

**10. Adolygu yr Asesiad Risc**

Fel y dywedwyd yn y cyfarfod diwethaf mae'r clerc wedi gwneud y newidiadau a gytunwyd ac felly dim ond y pwynt 'cerrig beddi' sydd angen sylw. Nid yw'r cadeirydd wedi cael pris am y gwaith yma ond mae o wedi cael ychydig o wybodaeth a chyngor ynglŷn â archwilio'r cerrig beddi. Cytunwyd i newid y geiriad ar yr asesiad risc i gynnwys y geiriau 'Bydd archwiliad blynyddol manwl gan gwmni/berson cymwys o'r holl gerrig beddi a rhestrir unrhyw garreg rydd neu beryglus.' Pasiwyd hefyd i'r clerc gysylltu hefo Hefin Underwood i ofyn am bris 3 blynedd i archwilio'r cerrig beddig os yw yn gwneud y math yma o waith ac os yw yn gymwys i'w wneud, hefyd mae angen gofyn pa mor amal ddylai archwiliad gael ei wneud.

**11. Llwybrau**

<u>Adolygu Tendr Torri Llwybrau</u>

Oherwydd amryw o gwynion y flwyddyn ddiwethaf nad oedd y llwybrau yn cael eu torri ddigon amal fe fydd rhaid ail edrych ar y tendar. Gan nad yw'r tendar yn dod i ben tan 31 Mawrth 2024 penderfynwyd peidio gwneud newidiadau ar hyn o bryd ond fe fydd rhaid cael cyfarfod i fynd drwy'r holl lwybrau a penderfynnu yn iawn ar faint o doriadau mewn blwyddyn sydd angen i bob un ohonynt ar gyfer y tendar nesaf.

Mae angen newid pa mor amal mae Cae Pentra Llan yn cael ei dorri i gyd-fynd hefo cytundeb 3 blynedd y contractwr sef pob pythefnos yn ystod y tymor tyfu ac felly mae'r clerc am ei newid. Mae yna broblem cwningod yn Cae Pentra Llan a gan fod plant yn mynd yno i chwarae drwy'r adeg mae'r clerc am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i gael pris i'w difa.

**12. Y Fynwent**

Adolygu Ffioedd Claddu

Nid yw'r ffioedd claddu Cynghorau Cymuned a Thref a yrrodd y clerc i'r aelodau ganddynt heno i ni fedru gwneud cymhariaeth felly mae Alan Harper-Smith yn cynnig bod yr eitem yn cael ei rhoi ar yr agenda mis nesaf i bawb gael edrych ar y wybodaeth eto. Mae'r clerc am anfon y ffioedd claddu iddynt eto hefo agenda mis nesaf.

Dyfynbris trwsio'r wal – Selwyn Pritchard & Dilwyn Williams

Mae'r cadeirydd wedi derbyn dyfynbris gan gontractwr arall erbyn hyn felly fe aeth drwy'r ddau ddyfynbris.

Penderfyniad: derbyn pris Dilwyn Williams i wneud bob dim a'r cadeirydd i gysylltu hefo fo i ofyn wrtho gychwyn y gwaith cyn gynted a phosibl.

Cynnig: Greta Hughes Eilio: William Roger Jones

Y Fynwent Newydd – Cyfarfod hefo Bryn Martin a'r ffordd ymlaen.

Fe fu cyfarfod rhwng Bryn Martin, Greta Hughes a'r cadeirydd yn ystod mis Rhagfyr i drafod cynllun y fynwent newydd. Ar ôl cael trafodaeth ar y mater mae'n amlwg fod camgymeriad wedi digwydd yn ystod y broses o gofrestru'r tir ac felly mae'r cynllun sydd gan y gofrestrfa tir yn anghywir. Mae Bryn Martin am gysylltu hefo Ieuan Ellis Owen i geisio trafod y mater ond yn sicr fe fydd rhaid newid y mesuriadau sydd ar y cynllun. Nid yw'r aelodau yn ffyddiog y bydd Bryn Martin yn datrys y sefyllfa hefo Ieuan Ellis Owen gan ei fod wedi gwrthod cyfarfod hefo'r aelodau yn y gorffennol felly cafwyd cynnig i gael cyfreithiwr newydd.

Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Gamlins i drefnu cyfarfod i drafod y mater.

Cynnig: Greta Hughes Eilio: John Brinley Jones

13. **Cae chwarae**

Gan fod Alaw Ceris yn absennol heno nid oes modd cael diweddariad ar y cae chwarae felly fe fydd rhaid aros tan mis nesaf.

14. **Neuadd y Pentref**

Ail-sefydlu is-bwyllgor penodol ar gyfer y neuadd.

Cafwyd diweddariad ynglŷn â'r is-bwyllgor newydd gan Gwenllian Davenport Hughes. Mae cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer 8fed o Chwefror 2023 am 7yh ac mae hi am anfon yr agenda allan yr wythnos yma. Diolchodd Thomas Victor Jones i Gwenllian Davenport Hughes am ei gwaith ar yr is-bwyllgor.

Codi prisiau llogi'r neuadd.

Fe fydd yr is-bwyllgor newydd yn delio hefo hyn felly fe fydd yn cael ei dynnu oddi ar yr agenda.

**Taliadau wedi eu cymeradwyo**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y Clerc –** Pat Humphreys | **£416.00** |
| **HMRC –** PAYE Mis 10 | **£104.00** |
| **Ann Llwyd –** Cyfieithydd | **£100.00** |
| **Roger Fisher –** Gwaith ar y gysgodfan bws ac yn y fynwent | **£210.00** |
| **Pat Humphreys –** BT Group – Bandeang mis Ionawr. | **£33.85** |

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 30/01/2023 7:00yh – O Bell

**Taliadau wedi eu Derbyn**

| | |
|---|---|
| **Cyngor Gwynedd –** ad-daliad cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus | **£570.60** |

**Ceisiadau Cynllunio**

Dim.

Unrhyw gais fydd wedi dod i law erbyn y cyfarfod.

Dim.

**Cais am gyfraniad**

Dim.

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 9.00y.h.

**Clerc – Pat Humphreys - 07901704410 • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •**
**Cadeirydd – John Brinley Jones • jbjones@ppm-technology.com • 07775577869•**